Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001



# Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?

## Mae'r gymdeithas yn newid felly mae'n rhaid i'r Cyfrifiad newid hefyd

Cynhaliwyd y Cyfrifiad cyntaf yng Nghymru a Lloegr ym 1801. Mae cymdeithas a'r dulliau o gynnal cyfrifiad wedi newid gryn dipyn ers hynny, ond mae newidiadau wedi digwydd hefyd ers y Cyfrifiad diwethaf 10 mlynedd yn ôl – effaith technoleg newydd a'r ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio nawr. Bydd Cyfrifiad 2001 yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn y cwestiynau a ofynnir, yn ei drefniadaeth ac yn y ffordd y caiff gwybodaeth y cyfrifiad ei phrosesu a'i storio.

### Cwestiynau newydd

Er mwyn cyflawni polisi cymdeithasol mwy goleuedig wedi'i anelu at leihau amddifadedd ac eithrio cymdeithasol cyflwynwyd cwestiynau newydd:

- Iechyd cyffredinol – fel cymorth i ragweld anghenion iechyd y dyfodol
- Gofalwyr personol di-dâl – galluogi asesiad o'r galwadau ar wasanaethau cymdeithasol
- Lefel llawr isaf – cymryd mesur llety anaddas posibl

### Newidiadau yn y ffordd o drefnu'r Cyfrifiad

#### Postio ffurflenni'r cyfrifiad yn ôl

Bydd y cyhoedd yn derbyn amlenni ateb rhagdaledig i bostio ffurflenni'r cyfrifiad yn ôl ynddynt i arbed cyfrifwyr rhag ailymweld â hwy. Mae hyn yn rhyddhau'r gweithlu maes i ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r ymateb yn isel.

#### Technoleg newydd

- Prosesu ffurflenni'r cyfrifiad – caiff y wybodaeth yn y blychau ticio a'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir gan y cyhoedd ar tua 32 miliwn o ffurflenni cyfrifiad eu sganio a'u prosesu gan ddefnyddio technoleg adnabod optegol. Mae hyn yn rhan o gontract prosesu data cyffredinol gydag arbenigwyr systemau gwybodaeth, Lockheed Martin, ac amcangyfrifir y bydd yn arbed £12 miliwn mewn costau prosesu.
- Mapio beichiau gwaith – datblygwyd technoleg System Gwybodaeth Ddaearyddol yn arbennig i lunio rhanbarthau cyfrifo gan arbed amser ac arian wrth gynllunio beichiau gwaith. Bydd y system hon hefyd yn creu allbynnau data yn ôl codau post yn hytrach na ffiniau gweinyddol yn unig.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk**

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

## Partneriaethau â sefydliadau cymunedol

Cysylltir ag Awdurdodau Lleol, arweinwyr cymunedau ethnig a grwpiau crefyddol, y Ganolfan Cynghori a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau. Y nod yw sefydlu partneriaeth waith gyda'r sector gwirfoddol i hybu'r Cyfrifiad, sicrhau y caiff pob grŵp o fewn y gymdeithas ei gyfrif a darparu help ymarferol wrth lenwi'r ffurflen.

## Polisi iaith Gymraeg

- Ffurflenni Cymraeg – rhoddir ffurflenni Cymraeg a Saesneg i bob cartref yng Nghymru.
- 'Czar' y Cyfrifiad yng Nghymru – crëwyd swydd Rheolwr y Cyfrifiad yng Nghymru i hybu'r Cyfrifiad a goruchwylio'r broses o weinyddu'r Cyfrifiad yng Nghymru.

## Methodoleg newydd

- Lle rydych yn byw yn hytrach na lle rydych yn digwydd bod – gofynnir i'r cyhoedd lenwi'r ffurflen yn ôl lle maent yn byw yn hytrach na lle maent ar noson y Cyfrifiad. Mae hyn yn gostwng nifer y bobl a gaiff eu cyfrif ddwywaith.
- Cyfeiriadau myfyrwyr yn ystod y tymor – caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor.

**Taflenni ffeithiau eraill:**


1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd


## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk